# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2017

Amser: 08.30 - 08.42

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Ann Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Ymddiheurodd y Llywydd am ei habsenoldeb a bu'r Dirprwy Lywydd yn cadeirio'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Byddai'r holl bleidleisiau mewn perthynas â'r Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3.

- Cadarnhaodd Gweinidog Busnes y Llywodraeth y byddai'r pleidleisio ar bob eitem arall o fusnes yn cael ei gynnal cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

- Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai egwyl o 10 munud cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

**Dydd Mercher**

- Byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 10 Ionawr 2018 –**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Llanw'n Troi? Adroddiad yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- <u>Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)</u>

### 3.4 Cynigion Deddfwriaethol yr Aelodau – dewis cynnig ar gyfer dadl

- Dewisodd y Pwyllgor Busnes gynnig ar gyfer dadl ar 6 Rhagfyr:

**NDM5518 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i gynyddu cyfranogiad dinasyddion yn y broses o wneud polisi yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau cyhoeddus.

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drefnu dwy ddadl ar Gynigion Deddfwriaethol yr Aelodau yn y Flwyddyn Newydd, a dewiswyd y cynigion canlynol:

**17 Ionawr 2018**

**NNDM6576 Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil Parhad i Gymru

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai cadarnhau bod yr holl bynciau a oedd yn rhan o gyfraith yr UE yn parhau o fewn cyfraith Cymru lle bônt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Deddf Cymru 2017.

**7 Chwefror 2018**

**NNDM6537 Vikki Howells (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil chwarae cynhwysol.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai gwella cyfleoedd chwarae cynhwysol drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol a fyddai'n golygu bod rhaid iddynt ddarparu offer chwarae sy'n diwallu anghenion plant ag anableddau.

## Unrhyw fater arall

Nododd y Rheolwyr Busnes y bydd Cyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 12 Rhagfyr yn dechrau am 8am.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai'r papur ar Gwestiynau Llafar y Cynulliad, a ohiriwyd yr wythnos diwethaf, ar yr agenda ar gyfer yr wythnos nesaf.